# SL(5)539 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdodau lleol, a chyhoeddi dogfennau penodol awdurdodau lleol yn ystod y pandemig COVID-19, a mynediad atynt.

At ddibenion y Rheoliadau hyn mae "awdurdod lleol" yn cynnwys prif gynghorau a chynghorau cymuned, gweithrediaeth prif gyngor, awdurdod iechyd porthladd, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub. Mae hefyd yn cynnwys pwyllgorau, is-bwyllgorau a chyd-bwyllgorau dau neu fwy o'r cyrff hyn.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i ganiatau cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir cyn 1 Mai 2021 drwy bresenoldeb o bell.

Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch gofynion sy'n ymwneud â chyfarfodydd awdurdodau lleol. Mae Rheoliadau 6 i 8 yn gwneud darpariaeth ynghylch pryd y gellir cynnal cyfarfodydd blynyddol prif gynghorau, cynghorau cymuned ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn 2020. Mae Rheoliad 9 yn gwneud darpariaeth i sicrhau nad yw awdurdod lleol yn cael ei gyfyngu wrth benderfynu pryd y ceir cynnal cyfarfodydd (ac eithrio'r cyfarfodydd blynyddol y mae Rheoliadau 6 i 8 yn mynd i'r afael â hwy) cyn 1 Mai 2021. Mae Rheoliad 10 yn gwneud darpariaeth ynghylch methu mynychu cyfarfodydd. Mae Rheoliadau 11 i 13 yn gwneud darpariaeth ynghylch ethol cadeiryddion, is-gadeiryddion a dirprwy gadeiryddion (yn ôl fel y digwydd) yng nghyfarfodydd blynyddol prif gynghorau, cynghorau cymuned, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe yn 2020. Mae Rheoliad 14 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phenodiadau eraill a wneir yng nghyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir cyn 1 Mai 2021. Mae Rheoliad 15 yn caniatáu i reolau sefydlog awdurdod cynllunio lleol ddarparu ar gyfer dirprwyo aelodau pwyllgorau ac is-bwyllgorau awdurdodau cynllunio lleol. Mae Rheoliad 16 yn gwneud darpariaeth ynghylch y dull pleidleisio yng nghyfarfodydd cynghorau cymuned. Mae Rheoliadau 17 ac 18 yn gwneud darpariaeth ynghylch hysbysiadau cyfarfodydd blynyddol prif gynghorau, cynghorau cymuned ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a gynhelir cyn 1 Mai 2021, a gwysion i aelodau fynychu'r cyfarfodydd hynny.

Mae Rhan 4 yn addasu gofynion mynediad i'r cyhoedd mewn perthynas â cyfarfodydd awdurdodau lleol penodol, penderfyniadau gweithrediaethau prif gynghorau, a hysbysiadau a dogfennau sy'n ymwneud â'r cyfarfodydd neu'r penderfyniadau hynny. Mae Rheoliad 20 yn addasu darpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 (c. 67) ac mae Rheoliad 21 yn addasu darpariaethau Rhan 5A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (c. 70). Mae'r darpariaethau hynny'n ymwneud â mynediad i'r cyhoedd i gyfarfodydd ac i hysbysiadau a dogfennau sy'n ymwneud â chyfarfodydd. Mae Rheoliad 22 yn gwneud darpariaeth ynghylch paratoi cofnodion cyfarfod o dan Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae Rheoliad 23 yn addasu darpariaethau Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithredol) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001 (OS 2001/2290) (Cy. 178) mewn perthynas â mynediad i'r cyhoedd i gyfarfodydd gweithrediaethau prif gynghorau ac i hysbysiadau a dogfennau sy'n ymwneud â'r cyfarfodydd hynny a phenderfyniadau gweithredol.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**Rheol Sefydlog 21.2 (vi) - ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

1. Mae Rheoliad 21(4) yn rhoi testun yn lle adran 100C o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Yn is-adran 6 (b) o'r testun hwnnw, ymddengys bod y croesgyfeiriad at is-adran (2) yn anghywir. Rydym yn credu y dylai gyfeirio at is-adran (9).

2. Mae Rheoliad 23(8)(f)(i) yn cynnwys cyfeiriad at Reoliad 24(6) o'r Rheoliadau hyn. Rydym yn credu y dylai'r cyfeiriad fod at Reoliad 23(6). Nid yw Rheoliad 24 (6) yn bodoli.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y dau bwynt technegol a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.**

1. Mae'r rheol 21 diwrnod o dan y Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 (a ymgorfforwyd yn Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) yn darparu y dylid gosod offerynnau 21 diwrnod cyn iddynt ddod i rym. Mae hyn yn caniatáu i Aelodau geisio diddymu offerynnau o'r fath cyn iddynt gael effaith, am y gall achosi dryswch os diddymir deddfwriaeth ar ôl ei roi ar waith. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr amgylchiadau'n cyfiawnhau torri'r rheol honno. Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, fel sy'n ofynnol o dan adran 11A o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, wedi hysbysu'r Llywydd am yr achos o dorri'r rheol mewn llythyr dyddiedig 21 Ebrill 2020 fel y gellir dwyn y mater i sylw'r Aelodau.

Mae'r llythyr yn nodi, o ystyried yr amgylchiadau ynghylch y pandemig COVID-19, na fernir bod cadw at y confensiwn 21 diwrnod yn angenrheidiol nac yn gallu cael ei gyfiawnhau yn yr achos hwn. Mae'r llythyr yn egluro ei bod yn ofynnol i'r Rheoliadau ddod i rym ar 22 Ebrill 2020 i alluogi awdurdodau lleol i barhau i weithredu. Ni all awdurdodau lleol wneud y newidiadau hyn drwy ddiwygiadau i'w rheolau sefydlog eu hunain neu reolau lleol eraill gan fod gofynion ar gyfer cyfarfodydd yn gyffredinol yn cael eu gosod yn fanwl mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Heb y newidiadau a nodir yn y Rheoliadau, ni all awdurdodau lleol gynnal unrhyw gyfarfodydd yn ddiogel. Mae hyn yn eu hatal rhag eu hymdrechion hanfodol i ymateb i'r pandemig COVID-19. Bydd y trefniadau hyn yn aros yn eu lle ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir cyn 1 Mai 2021.

2. Nodir yn y Memorandwm Esboniadol, ac yn y llythyr y cyfeiriwyd ato uchod, oherwydd natur frys y Rheoliadau, nad ydynt wedi bod yn destun ymgynghoriad. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth y DU a gyda chyrff sy'n cynrychioli llywodraeth leol yng Nghymru.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol mewn perthynas â'r pwyntiau technegol a godwyd.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**29 Ebrill 2020**